# Cronfa Adferiad Gwyrdd Cymru

Rydym yn cynnig grantiau o £5,000–£100,000 i sefydliadau amgylcheddol feithrin sgiliau, datblygu syniadau a gwella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Rydym yn cynnig grantiau o £5,000–£100,000 i sefydliadau amgylcheddol feithrin sgiliau, datblygu syniadau a gwella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Mae Cronfa Adferiad Gwyrdd Cymru yn gynllun grant refeniw newydd gwerth £920,000 i gynyddu capasiti o fewn y sector sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol (eNGO). Rydym yn dosbarthu'r gronfa hon mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

- rydym yn derbyn **Ffurflenni Ymholiad Prosiect** rhwng **16 Tachwedd a 6 Rhagfyr**
- **ceisiadau** ar agor ar **23 Tachwedd** ac yn cau ar **10 Ionawr 2021**

## Beth a olygwn wrth adferiad gwyrdd?

### Gwyrdd:

- gwrthdroi'r dirywiad mewn natur (argyfwng natur)
- mynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd
- mynd i'r afael â phatrymau anghynaliadwy o gynhyrchu a defnyddio (yr economi gylchol)

### Adferiad:

- buddsoddiad sy'n cefnogi creu swyddi a marchnadoedd newydd (adferiad economaidd)
- targedu camau gweithredu at y grwpiau, y cymunedau a'r lleoedd hynny sydd fwyaf agored i niwed, a/neu sydd wedi cael eu taro galetaf i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac amddifadedd sylfaenol (adferiad cymdeithasol)

## Nodau'r gronfa

Drwy Gronfa Adferiad Gwyrdd Cymru rydym am:

- rhoi cymorth i sefydliad anllywodraethol amgylcheddol gynyddu capasiti drwy lywodraethu cryfach, cydnerthedd ariannol, ymgysylltu â'r gymuned, datblygu prosiectau a sgiliau perthnasol eraill
- rhoi sefydliad anllywodraethol amgylcheddol - yn enwedig sefydliadau llai - ar sail fwy cynaliadwy drwy gefnogi datblygiad prosiectau o ansawdd uwch
- gwella cyrhaeddiad sefydliad anllywodraethol amgylcheddol i gymunedau heb gynrychiolaeth eang (lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, pobl anabl, ardaloedd amddifadedd, ac ati)

# Cynnwys

Expand All accordions

## Meini prawf cymhwysedd

Mae'r gronfa'n agored i sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol nid er elw sy'n neu bartneriaethau sy'n cael eu harwain gan sefydliad amgylcheddol. Rhaid i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yng Nghymru a datblygu prosiectau yng Nghymru. Rhaid i brif nodau'r sefydliad, neu amcanion elusennol, ymwneud â diogelu neu wella'r amgylchedd naturiol. Dim ond un cais y byddwn yn ei dderbyn fesul sefydliad neu bartneriaeth.

Byddwn yn derbyn ceisiadau am gyllid refeniw tan 31 Gorffennaf 2021. Gallwch wneud cais am hyd at 100% o'r cyllid.

Mae cyngor cyn ymgeisio ar gael drwy e-bost - cysylltwch â: natur@heritagefund.org.uk

Expand All accordions

## Dyddiadau allweddol

**16 Tachwedd – 6 Rhagfyr 2020:** cyflwyno Ffurflen Ymholiadau Prosiect. Rhoddir adborth o fewn 10 diwrnod gwaith. Mae'r cam hwn yn ddewisol ond fe'i hargymhellir yn gryf.

**23 Tachwedd 2020 – 10 Ionawr 2021:** cyflwyno cais llawn. Noder: ni chynigir unrhyw gymorth cais rhwng 21 Rhagfyr 2020 a 4 Ionawr 2021.

**Erbyn 8 Chwefror 2021:** penderfyniadau grant

Expand All accordions

## Wrthi'n paratoi eich cais

Drwy Gynllun Meithrin Capasiti yr Adferiad Gwyrdd rydym yn disgwyl gweld newid sylweddol yn y ffordd y mae sefydliadau'n gweithio, y syniadau y maent yn eu datblygu a/neu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Gall ceisiadau gynnwys unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol. Peidiwch â cheisio gwneud pob un ohonynt:

- llywodraethu cryfach, cydnerthedd ariannol a sgiliau perthnasol eraill
- datblygu cynlluniau neu strategaethau (ee: cynlluniau busnes neu strategaethau cyfathrebu)

- gwell ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned
- gweithgarwch cynllunio a datblygu prosiectau
- gwell darpariaeth gwasanaeth
- nodi heriau a gyflwynir gan COVID-19 ac atebion posibl
- cryfhau gwaith partneriaeth

Mae'n rhaid i'ch prosiect:

- Cynnwys o leiaf £5,000 o gymorth gan ymgynghorwyr. Nid oes angen cynllunio hyn yn ystod y cam ymgeisio. Gallwch gynnwys ymgynghorydd yr ydych wedi gweithio gydag ef o'r blaen neu gallwn roi manylion cyswllt i chi os yw'n llwyddiannus.
- Dim ond costau refeniw sy'n talu. Ni fydd y cynllun grant yma'n ariannu prosiectau cyfalaf.
- Datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi blaenoriaethau, camau gweithredu, cydweithio a chyllid yn y dyfodol yn y dyfodol.
- ystyried y Gymraeg
- cydnabod Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru

Gellir gwario'r cyllid ar:

- ffioedd ar gyfer ymgynghorwyr, mentoriaid, contractwyr, hyfforddwyr ac ati
- cyflogau staff (newydd a rhai sy'n bodoli eisoes)
- adennill costau llawn
- treuliau staff a gwirfoddolwyr
- llogi ystafell
- offer neu ategolion digidol
- costau cyfieithu
- arian wrth gefn
- gwerthuso

Expand All accordions

## Sut i ymgeisio

Ewch i'n porth ymgeisio a chofrestrwch gyfrif (neu mewngofnodwch os ydych wedi gwneud cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol o'r blaen).

1. o'r gwymplen dewiswch £10,000–£100,000
2. cwblhewch a chyflwynwch Ffurflen Ymholiadau Prosiect, fel y gallwch gael adborth gennym ar eich prosiect cyn i chi lenwi eich cais llawn (gwasanaeth ar gael 16 Tachwedd - 6 Rhagfyr)
3. pan fyddwch yn barod, cwblhewch a chyflwyno cais llawn

**Dilynwch y cyfarwyddiadau isod yn ofalus**, ochr yn ochr â'n canllawiau rhaglen grantiau gwerth £10,000-£250,000 a'r nodiadau cymorth ymgeisio, i gwblhau eich cais.

### Enwi eich prosiect

Dechreuwch deitl eich prosiect gyda #GWYRDD i'n helpu i nodi eich cais yn gywir. Er enghraifft: #GWYRDD Cynllunio Busnes ar gyfer Cymdeithas Adar Cymru. Mae terfyn o 15 gair.

Bydd angen i chi ddefnyddio'r ddwy set o ganllawiau ochr yn ochr â nodiadau cymorth y cais i ateb cwestiynau'r cais.

## Adran 1

Cwestiwn 1a-1b – defnyddiwch y nodiadau cais tudalen 4 i'ch helpu i ateb y cwestiynau hyn.

Cwestiwn 1c – mewn dim mwy na 200 gair dywedwch wrthym:

- beth fyddwch chi'n ei wneud i wella capasiti o fewn eich sefydliad
- pwy fydd yn cymryd rhan
- ar beth fyddwch chi'n gwario'r cyllid
- sut y byddwch yn cynnwys y Gymraeg o fewn eich prosiect

Cwestiwn 1d–1j – cyfeiriwch at nodiadau cymorth cais tudalen 4-6.

Cwestiwn 1k – defnyddio nodiadau cymorth cais tudalen 6 i ateb y cwestiwn hwn. Bydd angen i chi hefyd arddangos logo Llywodraeth Cymru.

## Adran 2

Cwestiwn 2a – Dywedwch wrthym am y dreftadaeth (safleoedd/rhywogaethau) y mae eich sefydliad yn gweithio i'w diogelu.

Cwestiwn 2b – ticiwch "Tirweddau a Natur".

Cwestiwn 2c – dywedwch wrthym pa heriau y mae eich sefydliad yn eu hwynebu a sut mae hynny'n effeithio ar y safleoedd/rhywogaethau yr ydych yn ceisio'u diogelu.

Cwestiwn 2d – Dim ond os yw eich prosiect yn ymwneud â safleoedd penodol y mae angen i chi dicio opsiynau.

Cwestiwn 2e – atebwch "na".

Cwestiwn 2f – ateb "Amh"

Cwestiwn 2g – ticiwch "na".

## Adran 3

Defnyddiwch nodiadau cymorth cais tudalen 10-11 i ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon.

## Adran 4

Ar gyfer y rhaglen grant hon mae angen i chi gyflawni o leiaf un o'r canlyniadau isod.

Gellir cyflawni canlyniadau naill ai o fewn y prosiect presennol neu drwy feithrin gallu a/neu gyfleoedd i wneud hynny mewn prosiectau yn y dyfodol. Sylwer:

- 
    - ar gyfer y grantiau hyn, pan fyddwn yn cyfeirio at dreftadaeth rydym yn golygu "ein tirweddau a'n natur"
    - mae terfyn gair o 300 gair ar gyfer yr adran hon
    - dylai eich ateb fanylu ar yr hyn y byddwch yn ei wneud a sut y byddwch yn gwybod beth rydych wedi'i gyflawni

Canlyniadau:

- **Bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth**. Er enghraifft, gall prosiect ymgynghori â phobl ifanc 11-25 oed a allai gymryd rhan mewn prosiectau yn y dyfodol.
- **Bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth, gan arwain at newid mewn syniadau a chamau gweithredu.** Er enghraifft, gall prosiect ddod â rhwydwaith o sefydliadau at ei gilydd i ddatblygu rhaglen addysg amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar leihau sbwriel.
- **Bydd gan bobl gwell llesiant.** Er enghraifft, gall prosiect dalu i ymgynghorwyr iechyd roi cyngor ar weithgareddau sy'n addas i bobl sy'n dioddef o rai materion iechyd.
- **Bydd y sefydliad a ariennir yn fwy gwydn.** Er enghraifft, gallwch arallgyfeirio eich pwyllgor drwy ddod ag arbenigedd ychwanegol i mewn neu ddarparu hyfforddiant.
- **Bydd yr ardal leol yn lle gwell i weithio, byw neu ymweld ag ef.** Er enghraifft, efallai y byddwch yn dod â grwpiau lleol at ei gilydd i ddatblygu syniadau ar gyfer tref neu bentref sy'n ystyriol o wenyn.
- **Bydd pobl wedi datblygu sgiliau.** Er enghraifft, gallwch greu hyfforddeiaethau neu brentisiaethau ar gyfer y rhaglenni hyn neu raglenni yn y dyfodol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

## Adran 5

Gan ddefnyddio'r nodiadau cymorth cais tudalennau 15-17, dywedwch wrthym faint y bydd yn ei gostio i gyflawni eich prosiect. Noder na allwn ariannu'r costau canlynol drwy'r rhaglen grant hon:

- costau cyfalaf
- cyfrifoldebau statudol a/neu gyfreithiol
- TAW adenilladwy
- prosiectau sy'n cael eu datblygu ar dir preifat lle nad oes budd cyhoeddus

## Adran 6

Defnyddiwch dudalennau nodiadau cymorth y rhaglen 18-19 i'ch helpu i ateb pob cwestiwn yn yr adran hon.

## Adran 7

Dyma'r dogfennau ategol sy'n ofynnol ar gyfer y rhaglen hon:

- dogfennau llywodraethu (ee: cyfansoddiad)

- eich cyfrifon archwiliedig diweddaraf
- cytundebau partneriaeth
- disgrifiadau swydd ar gyfer swyddi newydd

## Adran 8

Defnyddiwch y nodiadau cymorth cais tudalen 23 i'ch helpu i ateb y cwestiynau hyn.

Expand All accordions

**Adnoddau**

I wneud cais am Gynllun Meithrin Capasiti yr Adferiad Gwyrdd, rhaid i chi ddilyn y cyfarwyddiadau ar y dudalen hon, ochr yn ochr â:

- ein canllawiau rhaglen grantiau gwerth £10,000-£250,000
- ein nodiadau cymorth ymgeisio gwerth £10,000-£250,000

Mae'r Gronfa Treftadaeth yng Nghymru yn dosbarthu Cronfa Rhwydweithiau Natur ar ran Llywodraeth Cymru

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**